

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 14eg Mehefin, 2023 at 3.00 pm

YN

### BRESENNOL:

#### CYNYRCHIOLWYR CYNGHORWYR SIROL:

County Councillor Martyn Groucutt (Chair)  
County Councillor Angela Sandles,  
County Councillor Louise Brown  
County Councillor Paul Pavia

#### CYNYRCHIOLWYR FFYDD A CHRED:

Sue Cave  
Suzanne Gooding  
Maddie Sareirah  
Chris Francis  
Rebecca Morteo

#### CYNYRCHIOLWYR ATHRAWON:

Charlotte Rhodes  
Neil Jenkins

#### SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Sharon Randall-Smith	Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Hayley Jones	Partner Cwricwlwm(SACs and RVE)
Geraint Edwards	Cynghorydd cyfreithiol

#### APOLOGIES:

Ali Szwagrzak

#### 1. Cadarnhad o benodiad yr Aelod Cabinet dros Addysg gan Gyngor y Cabinet fel Cadeirydd CYS

Nodwyd penodiad yr Aelod Cabinet dros Addysg gan Gyngor y Cabinet fel Cadeirydd CYS

#### 2. Penodi Is-gadeirydd

Etholwyd y Cynghorydd Sirol L. Brown fel Is-gadeirydd

#### 3. Nodi cofnod y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 8fed Mawrth 2023 (heb gworwm)

Nodwyd cofnod y cyfarfod diwethaf (heb gworwm). Eitem 3: Gwnaed diwygiad i gywiro'r datganiad "Yn ogystal, mae Dyneiddiaeth yn rhan o'r maes llafur CGM" i ddarllen "Yn

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 14eg Mehefin, 2023 at 3.00 pm

ogystal, mae argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, y byddai Dyneiddiaeth yn enghraifft ohonynt, yn rhan o'r maes llafur CGM".

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26<sup>ain</sup> Hydref 2022 fel cofnod cywir.

Holodd Aelod a oedd fersiwn ddrafft o'r Cyfansoddiad wedi'i ddsbarthu i'r CYS cyn ei gyflwyno i'r Cyngor. Cadarnhawyd bod adroddiad drafft yn cynnwys y diwygiadau arfaethedig wedi'i gylchredeg cyn y cyfarfod cworwm a gynhaliwyd ar yr 8<sup>fed</sup> Mawrth 2023.

#### **4. Statws cyfreithiol newydd CYS: Geraint Edwards, Cyfreithiwr**

Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol mai'r cyfarfod heddiw yw cyfarfod cyntaf y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg (CYS). Eglurodd fod newidiadau deddfwriaethol yn cael eu gwneud i adrannau 390 i 392 o Ddeddf Addysg 1996 o ganlyniad i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru 2021. Effaith y newidiadau hynny oedd bod y gofyniad bod yn rhaid i awdurdod lleol ffurfio CYSAG wedi cael ei ddiddymu a'i ddisodli, yn amodol ar gyfnod trosiannol tan 2026, gan ofynion i greu a chyfansoddi CYS (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar grefydd, gwerthoedd a moeseg).

Mae briff CYS yn ehangach na CYSAG, mae'n cwmpasu holl gyfrifoldebau CYSAG ac ychwanegu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n adlewyrchu elfennau CGM fframwaith newydd Cwricwlwm i Gymru.

Mae cyfansoddiad CYS yn wahanol i gyfansoddiad yr hen CYSAG gan fod y gyfraith bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r grŵp cynrychioliadol ar gyfer enwadau Cristnogol a chrefyddau ac enwadau eraill gynnwys cynrychiolaeth ar gyfer personau sydd ag Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol.

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol Cyngor Sir Fynwy ar 18 Mai 2023, fe wnaeth y Cyngor Llawn adolygu, diweddar a chymeradwyo Cyfansoddiad Cyngor Sir Fynwy.

Roedd y newidiadau i'r Cyfansoddiad yn cynnwys disodli'r cylch gorchwyl CYSAG, gydag un ar gyfer CYS yn lle hynny. Mae'r rhain yn sylweddol union yr un fath â rhai'r cyn-gorff gan nodi dim ond cynnwys gwerthoedd a moeseg o fewn ei gwmpas, a darpariaeth ar gyfer cynrychiolydd Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol.

Yn ogystal, mae darpariaeth y bydd CYS yn gyfrifol am ymdrin â'r cyfrifoldebau CYSAG etifeddol trwy gydol y cyfnod trosiannol. Mae cylch gorchwyl CYS yn cynnwys darpariaeth na all cynrychiolydd Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol bleidleisio ar faterion etifeddiaeth CYSAG oherwydd na wnaed darpariaeth deddfwriaethol yn flaenrol ar gyfer cynrychiolydd Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol ar CYSAGau.

Codwyd amheuan a yw'r ddarpariaeth honno'n gyfreithlon yn dilyn dyfarniad diweddar yr Uchel Lys yn achos R (Bowen) v Cyngor Sir Caint [2023] EWHC 1261. Diddymodd y Llys Gweinyddol yn Llundain benderfyniad Cyngor Sir Caint i wrthod ystyried dyneiddiwr am aelodaeth o Grŵp A o'i CYSAG.

O ystyried bod y dyfarniad yn codi rhai amheuan ynghylch cyfreithlondeb y cyfyngiad yng nghylch gorchwyl ein CYS, cynhelir trafodaeth gyda chynrychiolydd y Prif Swyddog a'r Swyddog Monitro ac eraill i ystyried y mater hwn a gwneud unrhyw newidiadau yn ôl yr angen. Deallir bod gan Gyngor Sir Caint yr hawl i apelio o hyd, ac os bydd hyn yn digwydd, bydd angen aros am ganlyniad.

Tynnodd Aelod sylw at y ffaith bod y deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr yn wahanol, ac yn Lloegr mae CYSAGau'n parhau i fod ar waith. Gofynnodd yr Aelod am gyfle i edrych ar y

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 14eg Mehefin, 2023 at 3.00 pm

dyfarniad. Cyfeiriodd yr Aelod at y ddatl yn y Cyngor nad oedd cyngor Llywodraeth Cymru yn cael ei ddilyn i ganiatáu i'r CYSAG a'r CYS gydfodoli, ond nododd fod y newidiadau i'r cyfansoddiad wedi cael eu derbyn. Dywedodd yr Aelod nad oedd aelodau CYSAG/CYS wedi cael eu hymgyngori ynglŷn â'r newidiadau.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Swyddog Monitro o'r farn bod y Cyngor yn gweithio o fewn cyngor Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd ei fod wedi derbyn cyngor y gallai'r dyfarniad y cyfeirir ato gael effaith yng Nghymru ond bydd angen aros am ragor o wybodaeth.

#### **5. Aelodaeth a Threfniadau Recriwtio'r Dyfodol**

Cyflwynodd cynrychiolydd y Prif Swyddog yr adroddiad i ystyried proses recriwtio ffurfiol ar gyfer aelodau newydd o CYSau sy'n dryloyw, yn gyson ac yn gadarn i'w herio. Mae peidio â chael proses ffurfiol yn cyflwyno risg y gellid gweld nad yw CYS wedi'i gyfansoddi'n iawn. Mater i'r awdurdod lleol yw penodi aelodau CYS.

Grŵp 1 neu A: Cynrychiolwyr ffydd a chred. Bwriedir sefydlu proses debyg i benodi llywodraethwyr ysgolion awdurdodau lleol trwy ffurflen gais i gasglu gwybodaeth am eu rôl a'u profiad, a gymeradwyr gan y Grŵp Ffydd neu Gred a gynrychiolir.

Grŵp 2 neu B: Cynrychiolwyr athrawon. Fe'u henwebir gan undebau llafur mewn proses ffurfiol, wedi'i chofnodi, sy'n agored i bawb.

Grŵp 3 neu C: Cynrychiolwyr awdurdod lleol Mae'r rhain yn aelodau etholedig a benodir gan y Cyngor.

Cynigir tymor o bedair blynedd i ddarparu hyblygrwydd i adlewyrchu demograffeg newidiol.

Mynegodd Aelod bryder am gylchrediad hwyr yr adroddiad gan awgrymu gohirio. Nododd y Swyddog yr angen am broses glir, gyson a thryloyw ar gyfer recriwtio. Nid oedd unrhyw reswm i atal CYS rhag gohirio penderfyniad, tynnwyd sylw at yr angen i weithio ar lenwi swyddi gwag.

Nododd Aelod fod yr adroddiad yn wahanol i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mai 2023 gan y dylai fod chwe chynrychiolydd awdurdod lleol a dylai'r Prif Swyddog fod yn ymgynghorydd nid cynrychiolydd. Diolchwyd i'r Aelod am godi'r pwynt a bydd yr adroddiad yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu chwe chynrychiolydd (pleidleisio) a'r Prif Swyddog fel ymgynghorydd nad yw'n pleidleisio. Nodwyd hefyd y dylai'r CYS fod yn gyfrifol am benodi hyd at ddau aelod cyfetholedig nid yr awdurdod lleol a bydd y pwynt hwn yn cael ei ddiwygio yn yr adroddiad.

O ran penodi cynrychiolwyr athrawon, mae wedi bod yn saith aelod o'r blaen, a gynigiwyd gan gymdeithasau addysgu ac os nad oes enwebeion gellir cysylltu â phenaethiaid. Nid oes darpariaeth i rannu cynrychiolaeth rhwng ysgolion yr eglwys a'r awdurdod lleol

O ran penodi cynrychiolwyr argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol, nodwyd yn flaenorol pa grwpiau fyddai'n cael eu cynrychioli e.e. yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig, pedwar cynrychiolydd yr Eglwys Rydd ac ati. Holwyd pwy fyddai'n eistedd ar y panel i wneud y penodiadau hyn. Darparwyd eglurhad y byddai'r panel yn cynnwys aelodau

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### **Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 14eg Mehefin, 2023 at 3.00 pm**

etholedig trawsbleidiol a fyddai'n ystyried ffurflenni cais a gymeradwywyd gan y sefydliad enwebu.

Yn dilyn pleidlais yn y grwpiau priodol, cadarnhawyd argymhelliad yr adroddiad i dderbyn trefniadau recriwtio CYS yn y dyfodol fel y nodir yn yr adroddiad yn amodol ar y diwygiadau y cytunwyd arnynt.

Cytunwyd y byddai papur briffio yn cael ei ddsbarthu i holl Aelodau'r CYS i roi rhagor o fanylion ar sut y bydd y panel penodiadau'n cael ei gyfansoddi ac y bydd yn gweithredu.

#### **6. Cymwysterau Cymru - Ymgynghoriad cynnig cymwysterau 14-16 llawn**

Nododd y GCA, y Partner CGM, mai'r dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad, i ystyried y gyfres ehangach newydd 14-16 o gymwysterau arfaethedig i eistedd ochr yn ochr â'r cymhwyster TGAU sy'n dechrau ym mis Medi 2025, yw heddiw. Mae ymateb ar ran CYS wedi ei baratoi. Mae'r cynigion yn debyg i'r cwrs byr nad yw ar gael ar hyn o bryd. Bydd bwlch yn y ddarpariaeth oherwydd ni fydd y gyfres ehangach newydd o gymwysterau'n cael ei gweithredu tan 2027.

Nodwyd gan nad oes cymhwyster cwrs byr ar gyfer TGAU, mae angen sylweddol am gymwysterau ychwanegol i gefnogi elfen orfodol Addysg Grefyddol neu CGM. Mae Cymwysterau Cymru wedi cynnig ychwanegu rhai unedau at y cynnig Sgiliau Gydol Oes a Sgiliau Sylfaen. Mynegwyd pryder nad oedd hyn yn ddigonol gan y gall ysgolion optio i mewn neu allan o rai unedau.

Mae'r ymgynghoriad yn bwysig gan y bydd yn mesur yr angen am gymwysterau CGM penodol i lenwi'r angen i ddisgyblion nad ydynt yn dewis TGAU Addysg Grefyddol, eu defnyddio fel rhan o'r gyfres ehangach o gymwysterau ac o bosibl elfen orfodol CGM. Bydd y cymhwyster Sylfaen (rhan o'r Gyfres Cymwysterau Sylfaen) yn cynnwys rhwng 30 a 60 o oriau dysgu dan arweiniad i gyd-fynd â meini prawf wythnos o CGM i helpu dysgwyr i gael darpariaeth CGM dda yn CA4 a allai eu hannog i ddilyn y pwnc ar Safon Uwch. Y pryder yw, os oes darpariaeth gyfyngedig o CGM gall y gostyngiad yn y nifer sy'n manteisio ar gymwysterau CGM barhau.

Anogwyd Aelodau CYS i ymateb i'r ymgynghoriad, yn enwedig cwestiynau 47 i 49, gan fod risg y bydd ysgolion yn dewis peidio ag addysgu CGM. Nododd Aelod fod yr unedau'n ddewisol ac y dylent fod yn orfodol. Mae CYS yn sicrhau bod Addysg Grefyddol a CGM yn cael eu haddysgu mewn ysgolion ac os nad yw'r unedau'n cael eu cynnwys fel rhan o'r cymwysterau, efallai na fyddant yn cael eu haddysgu. Lle mae bwlch yn y ddarpariaeth rhwng 2025 a 2027, dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y cwrs byr ar Astudiaethau Crefyddol oherwydd bod hynny'n cynnwys lefel mynediad un a dau a allai gynorthwyo disgyblion i symud ymlaen i Safon Uwch.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 14eg Mehefin, 2023 at 3.00 pm

Awgrymwyd y dylid addysgu lefel mynediad un a lefel 2 ar sail orfodol yn hytrach na dewisol i gwmpasu rhwymedigaethau statudol Cristnogaeth a phrif grefyddau eraill, ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol. Mae'n bwysig bod statws y cymwysterau yn ddigon uchel i gael eu cydnabod

Anogodd y Cadeirydd yr Aelodau i weld y fideo a ddarparwyd gan CYSAGauC ac i ymateb i'r ymgynghoriad. Gofynnodd Aelod fod y pwynt ynghylch rhwymedigaeth statudol yn cael ei gynnwys i'r ymateb gan yr CYS.

#### **7. Adroddiadau Arolygu Sir Fynwy (Crynodeb)**

Adroddodd y Pennaeth Cyflawniad, Cyrhaeddiad a Gwasanaethau Estynedig ar adroddiadau Arolygu Ysgolion Sir Fynwy.

Nodwyd bod 11 ysgol wedi cael eu harolygu yn ystod y cyfnod ers y pandemig. Mae'r crynodeb yn seiliedig ar y 9 adroddiad sydd wedi'u cyhoeddi. Yr ysgolion a arolygwyd yw:

Ysgol Uwchradd Trefynwy  
Ysgol Uwchradd King Henry VIII  
Ysgol Gynradd Llanfihangel Crucornau  
Ysgol Gynradd Llan-ffwyst  
Ysgol Gynradd Castle Park  
Ysgol Gynradd Gilwern  
Ysgol Gynradd The Dell  
Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig y Santes Fair  
Ysgol Gynradd Dewstow

Ym mron pob ysgol, adroddir bod sgiliau ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn datblygu'n dda, ac mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth dda o gredoau ysbrydol a moesegol trwy gynulladau, amser myfyrio, cymharu gwahanol grefyddau a chredoau.

Nid oes unrhyw argymhellion yn ymwneud â datblygu addysg ysbrydol a moesol mewn unrhyw ysgolion yn y grŵp hwn. Adroddir ar yr elfen hon yn yr adran gofal, cymorth ac arweiniad.

Bydd y darnau o bob ysgol yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod heddiw ac mae'r rhain yn adlewyrchu lle gwelwyd datblygiad ysbrydol a moesol yn ystod yr arolygiad.

Fe wnaeth cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru ddiweddarau CYS ar arolygiadau ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr. Mae'r arolygiadau hyn yn cael eu hadolygu, felly nid oes unrhyw arolygiadau Adran S50 yn cael eu cynnal ac amcangyfrifir y byddant yn dechrau eto fis Ionawr nesaf. Deellir bod arolygiadau ysgolion Catholig wedi ailgychwyn.

Llongyfarchwyd yr ysgolion ar y sylwadau cadarnhaol a wnaed.

#### **8. Diweddariad Partner Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y GCA**

Adroddwyd bod y GCA yn gweithio ar gyfres newydd o ddysgu proffesiynol ac mae sgwrs anffurfiol ar addoli ar y cyd yn cychwyn yr wythnos nesaf i edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion i amlygu a rhannu arferion, ac ymarfer sy'n dod i'r amlwg a nodi sut i gefnogi ysgolion. Bydd Phil Lord yn westai yn siarad ar wella'r sgysiau ac mae croeso i Aelodau'r CYS fod yn bresennol, a hefyd i gyfrannu. Mae'r dolenni ar wefan y GCA.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 14eg Mehefin, 2023 at 3.00 pm

Mae rhaglen dylunio cwricwlwm CGM yn dechrau ar 27ain Mehefin i ysgolion feddwl am sut olwg sydd ar CGM, sut olwg sydd ar gynnydd o fewn CGM a dechrau edrych ar sut i'w gynllunio. Bydd hyn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ac yna'n ddiweddarach o bosibl wedi'u rhannu'n sesiynau cynradd ac uwchradd. Mae hyn wedi'i archebu'n llawn eisoes gyda rhestr aros, felly gellir trefnu ail ddiwyddiad.

Mae cyfarfodydd Dyniaethau cynradd ac uwchradd ar wahân.

Mae cynlluniau ar y gweill i drefnu gweithdy cyfarfyddiadau ffydd a chred, yn dilyn ychydig o hyfforddiant yr Eglwys yng Nghymru y mae rhai ysgolion yn ein rhanbarth wedi cael y cyfle i fod yn rhan ohono. Mae hyn yn canolbwyntio ar siarad am grefyddau byw ac mae pobl sydd â ffydd a chred yn rhannu eu profiadau ac yn cynnig yr hyn y gallant i ysgolion.

Hefyd, mae gwaith datblygu ar ddatblygu addysgeg ysbrydoledig mewn CGM a fydd dros ddeuddydd ym mis Rhagfyr i ddilyn ymlaen o'r sesiynau cychwynnol ar ddylunio'r cwricwlwm i edrych ar addysgeg benodol.

Mae gwaith parhaus gyda Chonsortium Canolbarth y De gyda Chyngor Mwslimaidd Cymru i greu fideos i'w rhannu gydag ysgolion. Mae'r cyntaf ar y Mosg, a'u prosiectau ac adnoddau Darganfod Mwslimiaid ym Mhrydain, i'w rhannu ag ysgolion.

Mae'r adnoddau CGM newydd i gyd ar Hwb ac mae digwyddiad mewnwelediad i hyrwyddo'r rhain.

O ran Llywodraeth Cymru, bu adolygiad maes llafur y cytunwyd arno. Comisiynwyd CCYSAGauC i edrych ar yr holl feysydd llafur cytûn yng Nghymru, ac adroddir yn ôl ar ansawdd, cysondeb ac a ydynt yn ysbryd y Cwricwlwm i Gymru, gyda golwg ar rannu arfer da.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am astudiaethau achos gan ysgolion i enghreifftio'r Beth a'r Sut o ran CGM. Anogwyd ysgolion Sir Fynwy i ddarparu enghreifftiau o waith mewn unrhyw fformat.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynhadledd am ddim Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol/CYSAGauC sy'n agored i CYSAGau. Mae gweithgor yn bwrw ymlaen â hyn.

Dylai'r trafodaethau TGAU newydd ynghylch aros am gynnig terfynol gan Gymwysterau Cymru i fynd i CBAC fod yn barod erbyn 26<sup>ain</sup> Mehefin. Ni fydd hyn yn cynnwys manylion y cwrs dim ond y cynllunio lefel uchel ar hyn o bryd. Y gobaith yw y bydd manyleb, deunyddiau hunanasesu a chanllawiau athrawon yn barod erbyn Medi 2024 ar gyfer yr arholiadau yn 2025.

Hysbyseb i CBAC i gydweithwyr helpu i gynhyrchu deunydd ac adnoddau ar gyfer Astudiaethau Crefyddol (nid CGM).

Dywedwyd bod Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn glir ei bod yn bosibl i ysgolion addysgu ar sail pwnc yn hytrach na sail amlddisgyblaethol. O ran addoli ar y cyd, gofynnodd yr Aelod a allai hyn fod wedi'i leoli'n fwy lleol a gofynnwyd iddo gymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu proffesiynol, a dywedodd hefyd y dylai ein hysgolion ffydd ein hunain fod yn rhan o ddysgu proffesiynol ar gyfer cydaddoli ar gyfer dull cytbwys gan ei bod yn bwysig bod ar sail leol. Cadarnhawyd bod yr Eglwys yng Nghymru wedi defnyddio Phil Lord yn ei hysgolion i gael cyngor ac arweiniad ar addoli ar y cyd, a soniwyd hefyd mai ychydig iawn o arbenigwyr pwnc sydd i dynnu arnynt.

#### **9. Cynllunio ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol**

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 14eg Mehefin, 2023 at 3.00 pm

Nodwyd y gofynnwyd i CYSAGauC gyflwyno cynigion i adolygu'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn Adroddiad Blyneddol CYSAG/CYS i adlewyrchu newidiadau o fewn Cwricwlwm i Gymru. Hyd nes y cyhoeddir unrhyw newidiadau, bydd y GCA, y Partner CGM, yn gweithio ar feini prawf presennol yr adroddiad.

#### 10. Trefniadau i adolygu'r cynnydd y mae ysgolion yn ei wneud tuag at gyflwyno CGM

Esboniodd cynrychiolydd y Prif Swyddog nad oes llawer o gynnydd i'w adrodd, yn rhannol oherwydd bod ysgolion cynradd yn defnyddio camau'n brin o streic, felly mae ymgysylltu â'r awdurdod a'r GCA wedi'i gyfyngu i elfennau statudol o waith.

#### 11. Busnes CCYSAGauC

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod CYSAGauC a gynhaliwyd ar 21<sup>ain</sup> Mawrth 2023.

Gwahoddwyd aelodau i fynychu fel cynrychiolydd CYS, cyfarfod CYSAGauC yr haf ar 19<sup>eg</sup> Mehefin 2023. Mae CS L. Brown wedi cofrestru i fod yn bresennol a dylid cyfeirio unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb eraill at [Wendybarnard3@monmouthshire.gov.uk](mailto:Wendybarnard3@monmouthshire.gov.uk)

#### 12. Unrhyw Fater Arall

Nodwyd nad yw'r amser cychwyn newydd o 3.00pm o reidrwydd yn gyfleus i bob aelod. Newidiwyd yr amser i annog athrawon-gynrychiolwyr i fynychu.

Bydd neges yn cael ei hanfon at yr holl aelodau i dderbyn eu barn am amseru'r cyfarfodydd.

Nodwyd mai cyfarfodydd Medi a Rhagfyr yw'r diwrnodau cyn cyfarfod y Cyngor Sir, sy'n cyfyngu ar argaeledd amser i aelodau etholedig fynychu cyfarfodydd grŵp a pharatoi ar gyfer y Cyngor. Gofynnwyd i'r dyddiadau gael eu symud yn ôl wythnos i'r 20<sup>fed</sup> Medi a'r 13<sup>eg</sup> Rhagfyr 2023.

#### 13. Dyddiadau'r cyfarfod nesaf a chyfarfodydd y dyfodol

Y cyfarfod diwedd yn 4.35 pm